Dosbarth Fioled –
Derbyn

Dosbarth Fioled - Derbyn- Tymor yr Hydref

Froebel - CLAI

Trosolwg Tymor yr Hydref

Yn nosbarth Fioled, byddwn yn cychwyn ar daith gyffrous i archwilio rhyfeddodau'r hydref, gan ddefnyddio lliwiau cynnes y tymor, dail sy'n disgyn, conau pinwydd, mes, a'r byd naturiol o'n cwmpas fel ysbrydoliaeth ar gyfer ein dysgu. Gan ddilyn egwyddorion Froebel, byddwn yn treulio amser yn arsylwi, ymchwilio, a chreu cysylltiadau gyda natur drwy brofiadau ymarferol ystyrlon. Bydd clai yn chwarae rhan ganolog yn ein dysgu wrth i ni ei ddefnyddio i archwilio siapiau, patrymau, a gweadau naturiol, gan greu modelau a mynegi ein syniadau mewn ffyrdd creadigol. Trwy weithgareddau cyfoethog a phwrpasol, byddwn yn datblygu ein sgiliau iaith a chyfathrebu, gan roi pwyslais arbennig ar gryfhau ymwybyddiaeth ffonolegol. Byddwn hefyd yn datblygu ein sgiliau ysgrifennu cynnar drwy feithrin hyder wrth ffurfio marciau, patrymau, llythrennau a rhifau mewn amrywiaeth o ffyrdd creadigol, gan ddefnyddio deunyddiau naturiol a chyfleoedd ymarferol tu mewn a thu allan i'r dosbarth. Wrth weithio gyda'n gilydd ac ymateb i harddwch a chyfoeth y tymor, byddwn yn tyfu fel dysgwyr uchelgeisiol, cyfranwyr mentrus, dinesyddion moesegol, ac unigolion hyderus sy'n chwilfrydig am y byd o'n cwmpas.

Dosbarth Fioled - Reception - Autumn Term

Froebel - CLAY

Autumn Term Overview

In Dosbarth Fioled, we will begin an exciting journey to explore the wonders of autumn, using the season's warm colours, falling leaves, pine cones, acorns, and the natural world around us as inspiration for our learning. Following Froebelian principles, we will spend time observing, investigating and making connections with nature through meaningful hands-on experiences. Clay will play a central role in our learning as we use it to explore natural shapes, patterns, and textures, creating models and expressing our ideas in creative ways. Through rich and purposeful activities, we will develop our language, literacy and communication skills, with a particular focus on strengthening phonological awareness. We will also develop our early writing skills by building confidence in making marks, patterns, letters, and numbers in a variety of creative ways, using natural materials and practical experiences both indoors and outdoors. As we work together and respond to the beauty and richness of the season, we will grow as ambitious learners, enterprising contributors, ethical citizens, and confident individuals who are curious about the world around them.

Llyfrau Darllen / Reading Books

Darllenwch yn ddyddiol. Dewch â llyfrau a chofnodion mewn ar **Ddydd Llun.**

Read daily. Please bring reading books and records into school every **Monday.**



Gwaith Cartref

Bydd gwaith cartref yn cael ei ddarparu yn wythnosol ac yn canolbwyntio ar **ddarllen a ffoneg, ffurfiant, a rhifedd.**

Homework will be given weekly which will concentrate on **reading and phonics, formation, and numeracy**.



Rhifedd / Numeracy

Ymarferwch **adnabod a ffurfio rhifau 0-10**.
Practise **recognising and forming numbers 0-10**.

Llythrennedd / Literacy

Parhewch i ymarfer **adnabod a ffurfio llythrennau melyn Tric a Chlic (m a p t h e c r y)**.
Please continue to practise **recognising and forming yellow Tric a Chlic letters (m a p t h e c r y)**

Dillad Addas / Appropriate clothing

Sicrhewch fod gan eich plentyn esgidiau a chotiau addas ar gyfer pob tywydd wedi ei labelu ag enw yn glir.
Please ensure that your child has suitable shoes and coats for all weather (labelled with name clearly)




Ymarfer Corff / P.E

Gwisgwch cit ymarfer corff i'r ysgol **ar Ddydd Iau**
Please wear P.E kit to school **every Thursday**





Llenyddiaeth / *Literature*






















<u>Profiadau sy'n ennyn diddordeb</u>

<u>Engaging Experiences</u>

Creu lamp Diwali gyda chlai i werthu yn y ffair Nadolig Create a clay Diwali lamp to sell at the Christmas fair 	Gwasanaeth Cynhaeaf ysgol gyfan Whole school Harvest Festival 	Wythnos crefydd yn yr ysgol- Hindiwiaeth Religion week- Hinduism ॐ
Froebelian occupation - Clay Agwedd Froebelaidd - Clai 	Sesiynau dawnsio gydag Afon Community Dance Dance sessions with Afon Community Dance Afon Community Dance c.i.c Inclusion • Creation • Progression	Ymweliad gan elusen 'Hedgehog Helpline' Visit from the Hedgehog Helpline' 
Dathlu artist yr wythnos Celebrate artist of the week 	Plannu tiwlipau a garlleg Planting tulips and garlic 	Sioe Nadolig Christmas Show 